

**CYFLWYNIAD**

Mae coeden newydd ei chwympo yn cynnwys llawer o ddŵr. Dŵr yw cymaint â 50% o bwysau pren caled newydd ei gwmpo, a gall hyn godi i 60% yn achos rhai mathau o bren meddal. Mae gwerth ynni potensial coed tân ar wahanol lefelau lleithder yn dangos pwysigrwydd ei sychu'n iawn:

**Tabl 1: Gwerth ynni potensial coed tân ar wahanol lefelau lleithder**

Pren	Dŵr % (yn ôl pwysau)	Ynni (kwh/kg)
Newydd ei Gwmpo	50	2.3
Sychwyd am flwyddyn	20	4.1
Sychwyd mewn ffwrn	0	5.4

Ffynhonnell y tabl: Coed Cymru

Mewn cymhariaeth mae olew gwresogi domestig yn cynnwys 12.8kwh/kg (neu 10.3kwh y litr) ac mae anthrasit yn cynnwys 9.4kwh/kg.

Yn ogystal â rhoi mwy o wres fesul cilô, mae pren sych yn ysgafnach a glanach i'w drin. Mae'n golosgi'n rhwyddach gan gynhyrchu llai o anwedd a thar mewn simneiau ac mae'n haws cynnal'r tân a'i gadw ynghyn.

**PENTYRRAU**

Sychu ag aer yw'r dull mwyaf cyffredin a mwyaf cost effeithiol o sychu coed tân.

- Y pen sydd wedi'i dorri sy'n sychu gyflymaf mewn boncyffion, wedyn arwynebau wedi'u hollti neu eu plicio, ac yn fwyaf araf drwy'r rhisgl.
- Cyfrinach sychu'n sydyn ac yn drwyadl yw torri'r pren yn ddarnau mor fach â phosibl yn fuan ar ôl cwmpo'r goeden; eu stacio fel bod aer yn llifo drwy'r pen graen, a chadw'r glaw i ffwrdd.
- Mae dalenni rhychog neu blastig yn ddelfrydol fel gorchudd ond ni ddylent atal llif yr aer drwy'r pentwr.
- Gellir cynyddu llif yr aer drwy roi haen o baledi dan y pentwr.

Mae ffigur 1 yn dangos pentwr wedi'i godi'n dda, ei osod ar baledi a'i orchuddio.

**Ffigur 1: Sychu Coed Tân****SIEDIAU**

Os defnyddir llawer iawn o goed tân mae'n werth codi sied sychu bwrpasol yn y lleoliad gorau er mwyn manteisio ar y gwynt a'r heulwen, gydag ochrau agored a chwteri i ddal dŵr glaw. Egwyddorion i'w hystyried wrth godi a llenwi sied sychu yw:

- Bod pren ar frig y pentwr yn sychu'n gyflymach nag ar y gwaelod felly'r nod yw codi pentwr mor uchel ag y gallwch yn ddiogel.
- Gwnewch y sied yn hir a thenau, yn hytrach na sgwâr, fel bod cymaint â phosibl o goed tân yn agored i'r haul a'r gwynt ac er mwyn annog llif o aer drwy'r pentwr.
- Dylai'r sied fod yn ddigon mawr i ddal cyflenwad blwyddyn o leiaf, ond mae dwy flynedd yn well ar gyfer derw gan ei fod yn araf iawn yn sychu.
- Mae angen codi pentwr gofalus er mwyn i bren sychu'n iawn.
- Bydd boncyffion sy'n cael eu gadael mewn swp yn sychu'n araf ac yn pydru, gan gollu gwerth caloriffig wrth ddadelfennu. Mae stacio gofalus yn gwneud y defnydd gorau o le hefyd ac yn lleihau'r risg y bydd damwain yn digwydd wrth i'r pentwr syrthio. Yn olaf, os oes lle gennych mae'n arfer da parhau i sychu dan do. Bydd wythnos mewn amodau sych a chynnes yn gorffen y broses sychu'n braf.

Ceir llawer o sôn am rinweddau gwahanol fathau o bren fel coed tân. Mewn gwirionedd, mae gwerth caloriffig pob pren tua'r un faint, y sychu sy'n gwneud y gwahaniaeth. Trwy roi sylw i fanylion a chael digon o amynedd, bydd unrhyw rywogaeth yn gwneud coed tân da.